CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN AR DDYDD MERCHER 29AIN MEHEFIN 2016 AM 2.00P.M.

---

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd K. V. Reynolds – Cadeirydd

Cynghorwyr:

C. Forehead (Adnoddau Dynol a Rheolwr Busnes/Llywodraethu), N. George (Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden), D.T. Hardacre (Rheoli Perfformiad ac Asedau), D. Havard (Addysg a Dysgu Gydol Oes), K. James (Adfywio, Cynllunio a Datblygu Cynaliadwy), B. Jones (Gwasanaethau Corfforaethol), D. Poole (Tai), T.J. Williams (Priffyrdd, Trafnidiaeth a Pheirianneg) a R. Woodyatt (Gwasanaethau Cymdeithasol).

Ynghyd â:

C. Burns (Prif Weithredwr Interim), C. Harrhy (Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau) a N. Scammel (Cyfarwyddwr Dros Dro y Gwasanaethau Corfforaethol ac Adran 151).

Hefyd yn bresennol:

R. Hartshorn (Pennaeth Diogelwch Cyhoeddus), D.A. Thomas (Uwch Swyddog Polisi – Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg), K. Cole (Prif Swyddog Addysg), C. Forbes-Thompson (Pennaeth Interim y Gwasanaethau Democrataidd) a C. Evans (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgorau)

**CYHOEDDIADAU**

Cynghorir aelodau mai hwn fyddai'r cyfarfod Cabinet olaf y byddai David Thomas (Uwch Swyddog Polisi (Cydraddoldeb a'r Gymraeg)) yn ei fynychu. Diolchodd aelodau i'r Swyddog am ei holl waith caled, ei gyfraniadau a'i gymorth dros y blynyddoedd gan roi eu dymuniadau gorau iddo ar gyfer y dyfodol.

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol)

**2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Datganodd y Cynghorydd D. Hardacre a'r Cynghorydd D. Havard ddiddordeb mewn eitem sy'n ymwneud â Threfniadau Llywodraethu ar gyfer Gwasanaeth Cyflawni Addysg De-ddwyrain Cymru. Cofnodir y manylion o dan yr eitem berthnasol.

**3. CABINET - 1AF MEHEFIN 2016**

> PENDERFYNWYD y dylai cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1af Mehefin 2016 (rhif cofnodion 1 i 8) gael eu cymeradwyo a'u harwyddo yn gofnod cywir.

4. **ADRODDIAD BLYNYDDOL SAFONAU'R IAITH GYMRAEG 2015-2016**

Hysbysodd yr adroddiad yr Aelodau am y cynnydd a wnaethpwyd yn ystod y flwyddyn ariannol 2015-2016 ym mhedwar maes penodol gwaith yr iaith Gymraeg, yn unol â gofynion y fframwaith rheoleiddio ar gyfer gweithredu Safonau'r Iaith Gymraeg a Chynllun yr Iaith Gymraeg blaenorol.

Nododd Aelodau y byddai'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar-lein erbyn y dyddiad cau sef 30ain Mehefin 2016, yn unol â gofyniad Safon y Gymraeg rhif 158.

Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i lunio adroddiad monitro blynyddol sy'n ymwneud â gweithredu materion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg o dan ddeddfwriaeth gyfredol.

Esboniodd y Swyddogion bod y wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer 2015-2016 yn llai nag arfer am ei bod yn flwyddyn bontio rhwng y ddeddfwriaeth flaenorol a'r ddeddfwriaeth gyfredol gan gynnwys pedwar maes allweddol, ynghyd â chrynodeb ar sut baratôdd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar gyfer y dyletswyddau newydd.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd y dylai argymhelliad yr adroddiad gael ei gymeradwyo. Trwy godi llaw, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

> PENDERFYNWYD am y rhesymau a nodwyd yn adroddiad y Swyddog (ac yn amodol ar y cyfnod galw i mewn), y dylai Adroddiad Blynyddol Safonau'r Iaith Gymraeg 2015-16 gael ei gyhoeddi erbyn 30ain Mehefin 2016, fel cofnod o'r cynnydd tuag at Safonau'r Iaith Gymraeg priodol a'r cydymffurfio gyda hwy.

**5. CAU'R LLEOLIAD ADNODD ARBENIGOL CYFNOD ALLWEDDOL 2 AR GYFER PLANT SYDD Â NAM AR EU CLYW YN YSGOL IAU HENDRE, AC AIL-DDYNODI'R DOSBARTH CYNHWYSIANT CYMDEITHASOL YN YSGOL GYNRADD CEFN FFOREST: CANLYNIAD Y BROSES YMGYNGHORI FFURFIOL**

Rhoddodd yr adroddiad hwn ddiweddariad i'r Cabinet ynghylch y broses ymgynghoriad ffurfiol gan ofyn am benderfyniad am y cynigion.

Yn ystod y cyfarfod ar 9fed Rhagfyr 2015, penderfynodd y Cabinet gynnal proses ymgynghori ffurfiol parthed y cynnig uchod. Nododd Aelodau y cafodd y broses (ynghyd â dogfennau ymgynghori) ei chynnal rhwng 4ydd Ionawr 2016 a 14eg Chwefror 2016.

Ar 16eg Mawrth 2016 cytunodd y Cabinet i symud i Hysbysiad Statudol. Dosbarthwyd Hysbysiadau Statudol ar gyfer y ddau gynnig ar 11eg Ebrill 2016 fel y nodir o dan Atodiad 1 yr adroddiad. Nodwyd, fel y nodwyd yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion, bod pob un o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy wedi'i hysbysu a derbyniwyd cyfle i wrthwynebu'r cynigion, fel yr amlinellir o dan Atodiad 2 yr adroddiad.

Esboniodd Swyddogion y daeth y 'cyfnod gwrthwynebu' i ben ar 9fed Mai 2016 ac ni dderbyniodd yr Awdurdod Lleol unrhyw wrthwynebiadau i'r cynigion.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd y dylai argymhelliad yr adroddiad gael ei gymeradwyo. Trwy godi llaw, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a nodwyd yn adroddiad y Swyddog bod y cynigion i gau Lleoliad Adnodd Arbenigol Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer plant sydd â nam ar eu clyw yn Ysgol Iau Hendre ac i ail-ddynodi'r dosbarth Cynhwysiant Cymdeithasol Cyfnod Allweddol 2 yn Ysgol Gynradd Cefn Fforest, gael eu cymeradwyo.

## 6. TREFNIADAU LLYWODRAETHU AR GYFER GWASANAETH CYFLAWNI ADDYSG DE-DDWYRAIN CYMRU

Datganodd y Cynghorydd D. Hardacre a'r Cynghorydd D. Havard ddiddordeb yn y mater hwn o ganlyniad i'w cyswllt â Bwrdd Gwasanaeth Cyflawni Addysg De-Ddwyrain Cymru a Phwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Gwasanaeth Cyflawni Addysg a chawsant eu cynghori gan y Prif Weithredwr Interim nad oedd yn ymddangos ei fod yn ddiddordeb ariannol nac andwyol. Arhosodd y ddau yn y cyfarfod ond ni chymerodd y ddau ran yn y bleidlais.

Gofynnodd yr adroddiad am gymeradwyaeth y Cabinet i gytuno'n ffurfiol i Gytundeb Atodol i Gytundeb Cydweithio ac Aelodau (*CAMA*) ar gyfer y Gwasanaeth Cyflawni Addysg Ebrill 2016.

Gofynnwyd i Aelodau nodi bod cyfres o newidiadau arfaethedig i'r cytundeb gwreiddiol wedi'i hamlinellu yn y cytundeb a ddiweddarwyd sy'n cynnwys:

- Trefniadau llywodraethu sy'n sicrhau bod yr awdurdodau lleol a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn cydymffurfio â gofynion y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol.

- Y ffordd y gall y Gwasanaeth Cyflawni Addysg ymdrin â grantiau – y newid cyntaf yw y caiff pob grant ei sianelu trwy'r Grŵp y Cyfarwyddwyr yn y man cychwyn. Mae proses fanwl mewn lle sy'n esbonio sut y bydd hyn yn gweithio yn ymarferol. Bydd y Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn adrodd am hyn yn rheolaidd i Gyfarwyddwyr/Penaethiaid Addysg ac Aelodau Gweithredol dros Addysg ym mhob un o'r Awdurdodau Lleol.

- Gallu'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg i ddarparu gwasanaethau i gwsmeriaid heblaw am Awdurdodau Lleol Consortiwm De-Ddwyrain Cymru gan godi ffi ac yn amodol ar graffu a chymeradwyaeth gan y Grŵp Gweithredol ar y Cyd. Gall y Gwasanaeth Cyflawni Addysg barhau i dderbyn comisiwn o'r math heb dderbyn caniatâd blaenorol gan y Grŵp Gweithredol ar y Cyd:
    - Pan fydd gwerth y cytundeb hyd at £50,000 ond nid oes unrhyw risg nac effaith ar ganlyniadau cyflenwi y cytunwyd arnynt.
    - Pan fydd gwerth y contract hyd at £15,000 ac efallai/bydd yn cael effaith ar ganlyniadau cyflenwi y cytunwyd arnynt.
    - Os yw'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg wedi derbyn cyngor priodol am unrhyw rwymedigaethau TAW a all godi o ganlyniad i fod ynghlwm â chytundeb o'r math ac mae'r ffactorau hyn yn rhan o fanylion y cytundeb.
    - Os yw'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg wedi derbyn cyngor cyfreithiol priodol wrth lunio'r cytundeb.
    - Os bydd y Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn hysbysu cyfarfod nesaf y Grŵp Gweithredol ar y Cyd am yr holl gytundebau newydd sy'n fwy na £10,000 dros flwyddyn ariannol.

- Mewn achosion lle y bydd costau gwasanaethau craidd y Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn costio yn fwy nag y rhagwelir, yn unol â chymeradwyaeth flaenorol y Grŵp Gweithredol ar y Cyd, bydd pob Awdurdod Lleol yn talu ei gyfran o'r gorwario hwn. Fodd bynnag, bydd y Gwasanaeth Cyflawni Addysg, mewn trafodaeth â'r Awdurdodau Lleol yn ad-dalu'r "benthyciad" hwn dros gyfnod y cytunwyd arno trwy leihau costau'r gwasanaethau craidd y mae pob Awdurdod Lleol yn eu talu am gyfnod y cytunwyd arno.

Trafododd yr Aelodau y cynigion a gofynnwyd am eglurhad ynghylch a oedd TAW yn rhan o brisiannau y cytundebau, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad. Nododd y Swyddogion y byddant yn gofyn am eglurhad gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg gan gynghori Aelodau yn dilyn hynny.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth cynigiwyd ac eiliwyd y dylai'r adroddiad gael ei gymeradwyo yn amodol ar dderbyn eglurhad am yr uchod. Trwy godi llaw, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

> PENDERFYNWYD am y rhesymau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddog ac ar fabwysiadu'r Cytundeb Atodol i Gytundeb Cydweithio ac Aelodau (*CAMA*) ar gyfer y gwasanaeth Cyflawni Addysg Ebrill 2016, yn amodol ar dderbyn eglurhad parthed a yw TAW wedi'i chynnwys yn rhan o brisiannau'r cytundebau, y dylai'r adroddiad gael ei gymeradwyo.

## 7. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET

Gofynnodd yr adroddiad am gymeradwyaeth y Cabinet ynghylch y Flaenraglen Waith ar gyfer y cyfnod o fis Gorffennaf 2016 tan fis Medi 2016.

Nododd Aelodau y caiff y Flaenraglen Waith ei diweddaru bob mis er mwyn adlewyrchu unrhyw ddiwygiadau a wneir ers y tro cyntaf y cytunwyd arni ar 22ain Ionawr 2014 ac, yn ogystal â hyn, mae'n cynnwys crynodeb manwl o'r adroddiadau sydd wedi'i ddarparu o ganlyniad i argymhelliad yn dilyn Arolwg Craffu.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd y dylai argymhelliad yr adroddiad gael ei gymeradwyo. Trwy godi llaw, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

> PENDERFYNWYD am y rhesymau a nodwyd yn adroddiad y Swyddog, y dylai Blaenraglen Waith y Cabinet gael ei chymeradwyo.

## ARGYMHELLION I'R CYNGOR

## 8. DIWYGIO AWDURDOD SWYDDOGION O FEWN YR IS-ADRAN DIOGELWCH CYHOEDDUS

Hysbysodd yr adroddiad y Cabinet am newidiadau i'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i Swyddogion yr Is-adran Diogelwch Cyhoeddus cyn i'r adroddiad gael ei gyflwyno i'r Cyngor er mwyn diwygio Cyfansoddiad y Cyngor i gynnwys Sylweddau Seicoweithredol 2016 a Deddf Plant a Theuluoedd 2014 a hefyd i dderbyn awdurdod ychwanegol ar gyfer Swyddogion o dan y Deddfau uchod.

Mae angen awdurdod ychwanegol ar Swyddogion o fewn yr Is-adran Diogelwch Cyhoeddus o dan Ddeddfau Seneddol er mwyn gweithredu'r ddeddfwriaeth a chyflawni eu dyletswyddau.

Trafododd Aelodau y goblygiadau sydd ynghlwm â'r newid yn y ddeddfwriaeth a nododd bod y ddeddfwriaeth erbyn hyn yn cynnwys Sylweddau Seicoweithredol Newydd neu unrhyw beth sy'n cynhyrchu "penfeddw cyfreithlon" (ac eithrio alcohol, tybaco, nicotin, caffein), "prynu cynhyrchion drwy ddirprwy" megis tybaco a phapurau sigarennau, yn ogystal â chynhyrchion nicotin megis e-sigarennau a'u hylif. Mae'r adroddiad yn caniatáu hyblygrwydd i Swyddogion Gorfodi yr Awdurdod Lleol ddosbarthu hysbysiadau cosb benodedig os ydynt yn credu bod tramgwydd wedi cael ei gyflawni. Yn ogystal â hyn, gofynnwyd i Aelodau nodi, pe bai ganddynt unrhyw bryderon penodol, y dylent hysbysu'r Swyddogion a byddai modd gweithredu goruchwyliaeth a/neu "Prynu ar Brawf" yn ôl yr angen.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaethau, cynigiwyd ac eiliwyd y dylai argymhelliad yr adroddiad gael ei gymeradwyo. Trwy godi llaw, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

ARGYMHELLWYD am y rhesymau a nodwyd yn adroddiad y Swyddog y dylai: -

(i) Gweithredu'r ddeddfwriaeth a'r newidiadau a argymhellwyd i Gyfansoddiad y Cyngor gael eu cyfeirio at y Cyngor er mwyn gwneud penderfyniad;

(ii) Swyddog Monitro y Cyngor gyflawni'r diwygiadau angenrheidiol i Gyfansoddiad y Cyngor;

(iii) Cyfansoddiad y Cyngor a'i gylch gorchwyl gael eu diwygio trwy ychwanegu'r canlynol: Deddf Sylweddau Seicoweithredol 2016, Deddf Plant a Theuluoedd 2014;

(iv) Swyddogion o fewn yr Is-adran Diogelwch Cyhoeddus dderbyn yr awdurdod o dan Ddeddf Sylweddau Seicoweithredol 2016 a Deddf Plant a Theuluoedd 2014 er mwyn gweithredu'r ddeddfwriaeth a chyflawni eu dyletswyddau.

## 9. RHYBUDD O GYNNIG – CAMAU ADFER I WELLA ANSAWDD AER AR HEOL HAFODYRYNYS

Cyflwynwyd yr adroddiad a ystyriwyd gan y Pwyllgor Craffu Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles ar 29ain Mehefin 2016 gerbron y Cabinet yn ymateb i Rybudd o Gynnig a dderbyniwyd gan y Cynghorydd A. Lewis a ofynnodd i GBSC gymryd camau adfer ar frys i wella ansawdd aer ar Heol Hafodyrynys.

Nododd Aelodau fod adroddiadau wedi cael eu cynnwys yn y cyfryngau yn ddiweddar parthed ansawdd yr aer yn y lleoliad hwn.

Cyflwynodd Deddf yr Amgylchedd 1995 fframwaith polisi strategol ar gyfer rheoli ansawdd aer. Sefydlodd y strategaeth set o safonau ar gyfer nifer o lygryddion gan ystyried tystiolaeth wyddonol a meddygol ynghylch y sgil effeithiau ar iechyd. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol gynnal adolygiadau cyson o ansawdd yr aer o fewn eu hardaloedd er mwyn penderfynu a ydynt yn cydymffurfio â'r safonau hyn ai peidio ac, os nad ydynt yn cydymffurfio â'r safonau hyn mae'n rhaid dynodi Ardal Rheoli Ansawdd Aer a chynnwys rheoliadau er mwyn gwella ansawdd yr aer a sicrhau ei fod o fewn y lefelau derbyniol.

Cychwynnwyd ar waith monitro ansawdd aer yn Hafodyrynys yn 2009. Ymgymerwyd ag Asesiad Manwl o ansawdd aer yn 2013 yn seiliedig ar y data monitro o 2012 a chafodd ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Cadarnhaodd yr Asesiad Manwl fod y canlyniadau yn parhau i fethu â chyrraedd amcanion ansawdd aer a dynodwyd yr ardal yn Ardal Rheoli Ansawdd Aer ar yr un adeg y cafodd Ardal Rheoli Ansawdd Aer Canol Tref Caerffili ei hymestyn ym mis Tachwedd 2013.

Ymgymerwyd ag adroddiad Asesiad Pellach ym mis Ebrill 2015 a rhoddwyd ystyriaeth i gyfraniadau'r holl fathau o draffig gan fodelu senarios lliniaru. Roedd y gwelliannau diweddar i Gyffordd Crymlyn yn un o'r senarios lliniaru a gafodd ei fodelu o fewn yr adroddiad. Mae'r cynllun hwn a gafodd ei gwblhau yn ddiweddar eisoes wedi arwain at fuddion effeithlonrwydd ond mae'r gwaith monitro yn dilyn cwblhau'r cynllun yn parhau.

Nododd Aelodau y bydd y cynllun gweithredu ansawdd aer, yn unol â'r Ddeddf, yn canolbwyntio yn bennaf ar ostwng lefelau nitrogen deuocsid o fewn yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer ac mae'n bwysig nodi bod y llygrydd sy'n peri gofid yn ymwneud â thraffig. Mae traffig yn ciwio a thagfeydd yn fater ar hyd y cyffyrdd sy'n bwydo'r A472 nid o fewn yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer yn unig. Wrth lunio'r Cynllun Gweithredu bydd yn rhaid ystyried yr ardaloedd sy'n gyfagos i'r cyffyrdd sy'n bwydo'r A472 a bydd yn rhaid derbyn mewnbwn gan nifer o

wasanaethau ar draws yr Awdurdod Lleol yn ogystal â mewnbwn gan bartneriaid allanol, a thrigolion a busnesau lleol.

Yn ogystal â hyn, nododd Aelodau bod gofyniad i ymgynghori ag aelodau'r cyhoedd wrth lunio'r Cynllun Gweithredu a, gan ddefnyddio strategaeth gyfathrebu berthnasol, bwriedir ymgysylltu â thrigolion, grwpiau cymunedol a chwaraewyr allweddol eraill. Cynigir cynnal cyfarfod Grŵp Llywio'r Cynllun Gweithredu ym mis Medi. Caiff yr holl weithredoedd arfaethedig eu hasesu a chaiff y rhai y mae modd eu cyflenwi eu cynnwys yn rhan o Gynllun Gweithredu Ansawdd Aer Hafodyrynys. Disgwylir y bydd fersiwn ddrafft y Cynllun Gweithredu ar gael er gyfer ymgynghori cyhoeddus yn gynnar yn 2017.

Pwysleisiodd Aelodau fod y Cynghorydd Lewis, i gefnogi'r Rhybudd o Gynnig, hefyd wedi cyfeirio at gais am ganiatâd cynllunio a gyflwynwyd i Gyngor Torfaen sy'n ymwneud ag adfer hen safle cloddio glo brig, adfer agregau eilaidd ac adeiladu ffordd fynediad newydd gan effeithio ar hawliau tramwy cyhoeddus. Nid yw Cyngor Torfaen wedi gwneud penderfyniad am y cais hyd yma ond penderfyniad y Pwyllgor Cynllunio ar 8fed Gorffennaf 2015 oedd: y cynghorir Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen bod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn nodi gwrthwynebiad i'r cais ar sail yr effaith niweidiol ar amwynder preswyl, diogelwch ar y briffordd ac ansawdd aer. Anfonwyd llythyr i'r perwyl hwn at Gyngor Torfaen.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eilwyd y dylai argymhelliad yr adroddiad gael ei gymeradwyo. Trwy godi llaw, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

ARGYMHELLWYD am y rhesymau a drafodwyd yn ystod y cyfarfod, y rhesymau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddog a gan ystyried argymhellion y Pwyllgor Craffu:-

(i) Y dylai'r Rhybudd o Gynnig gael ei gyfeirio at y Cyngor er mwyn gwneud penderfyniad;

(ii) Bydd Grŵp Llywio'r Cynllun Gweithredu yn archwilio'r opsiwn o adeiladu ffordd osgoi yn yr ardal, mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru.

Caewyd y cyfarfod am 2.51pm

Cymeradwywyd ac arwyddwyd yn gofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wneir yn ystod y cyfarfod a gynhelir ar 13eg Gorffennaf 2016.

________________________

CADEIRYDD